| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Archwilio Partneriaethau** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **6 Hydref 2016** |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | **Aelod Arweiniol Cyllid, Cynllun Corfforaethol a Pherfformiad**<br>**Pennaeth Gwella Busnes a Moderneiddio** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Swyddog Cynllunio a Pherfformiad**<br>**Rheolwr Tîm Cynllunio Strategol** |
| **Teitl:** | **Cynllun Lles Sir Ddinbych** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi asesiad cyffredinol o berfformiad Cefnogi Annibyniaeth a Gwydnwch: Cynllun Lles Sir Ddinbych yn ystod 2014-16. Hwn yw'r cynllun strategol ar gyfer y sector cyhoeddus yn Sir Ddinbych.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Pwrpas yr adroddiad hwn yw rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor Archwilio Partneriaethau ar y cynnydd hyd yma o ran gweithredu'r Cynllun Lles.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Ystyried yr adroddiad perfformiad (ynghlwm) a gwneud sylwadau arno.

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1 Datblygwyd Cynllun Lles Sir Ddinbych ar ôl asesiad anghenion, ymgysylltu ac ymgynghori sylweddol. Mae'n rhagflaenu'r ddyletswydd statudol newydd ar gyfer cyrff sector cyhoeddus i gynhyrchu cynlluniau lles (dan Ddeddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015), ac mae bellach yn cael ei ystyried yn arfer da.

4.2 Rydym ni bellach hanner ffordd drwy weithredu'r cynllun ac mae'r partneriaid wedi cydweithio i roi dulliau arloesol ac arbrofol ar brawf. Er nad yw canlyniadau'r prosiectau bob amser wedi cyrraedd ein gobeithio, mae'r dysgu ar y cyd wedi bod yn bwysig.

4.3 Mae Cynllun Lles Sir Ddinbych yn defnyddio'r Pum Ffordd at Les fel fframwaith ar gyfer cyflawni ei weledigaeth. Hwn yw'r crynodeb o ran sefyllfa pob un o'r Pum Ffordd at Les ym mis Awst 2016. Mae'r gwerthusiad cyffredinol ar gyfer y Pum Ffordd wedi ei benderfynu trwy ystyried y dangosyddion, y mesurau perfformiad a'r gweithgarwch gwella.

| | |
|---|---|
| Bod yn Egnïol | Blaenoriaeth ar gyfer Gwella |
| Cysylltu | Derbyniol |
| Rhoi | Da |
| Parhau i ddysgu | Derbyniol |
| Cymryd sylw | Rhagorol |

4.3 Mae'r adroddiad perfformiad (ynghlwm) yn amlinellu’r cyflawniadau a’r materion ym mis Awst 2016. Mae'r adroddiad hefyd yn rhoi trosolwg o brosiectau’r Cynllun Lles. Roedd y cynllun yn cynnwys 8 prosiect newydd; 4 wedi eu cyflawni, 2 ar y gweill a 2 wedi eu tynnu'n ôl. Cafodd y prosiectau eu tynnu'n ôl oherwydd bod angen mwy o adnoddau ar eu cyfer – adnoddau nad oedd ar gael gan y partneriaid.

4.4 Crynodeb o berfformiad:

- Rydym ni wedi rhoi 'Sir Ddinbych 20' ar brawf, sef dull amlasiantaethol arloesol a arweinir gan Heddlu Gogledd Cymru. Nod Sir Ddinbych 20 oedd cefnogi’r galw uchel gan unigolion risg isel a oedd yn rhoi pwysau mawr ar y gwasanaethau brys heb eu cynllunio. Daeth pedwar enwebiad yn achosion byw ac arweiniodd dau o'r pedwar achos a enwebwyd at ganlyniadau cychwynnol cadarnhaol (setlodd un yn gyflym i dŷ newydd, ac yn y ddau achos lleihawyd y galwadau i 999). Mae’n rhaid cyfaddef, amser a ddengys o ran cynaliadwyedd y canlyniadau cadarnhaol a gyflawnwyd gan y ddau unigolyn, o ystyried eu dibyniaeth hir ar alw 999. Bu i ni ddysgu llawer iawn drwy’r prosiect hwn. Mae'r gwerthusiad ar gael ar ein gwefan.

- Roedd prosiect Pobl i Bobl yng Nghorwen yn rhoi datblygu cymunedol seiliedig ar asedau ar brawf. Mae gwerthusiad yn yr arfaeth. Rydym ni wedi derbyn darlun clir gan y rhai a gymerodd ran o ran beth sydd arnyn nhw ei angen yn yr ardal. Roedd rhai elfennau o'r prosiect yn llai llwyddiannus ond bu i’r gymuned nodi materion ac anghenion. Er enghraifft, mae sefydliad nad yw bellach yn cael ei gefnogi gan grantiau uniongyrchol y Cyngor wedi bod yn rhagweithiol iawn wrth drefnu gweithgareddau codi arian gyda sefydliadau eraill i wneud eu gweithgareddau yn gynaliadwy.

- Mae asesiad anghenion ‘byw’ wedi ei sefydlu ac yn hysbysu'r asesiad o les. Mae'r asesiad anghenion ar-lein 'byw' yn enghraifft arall o bartneriaid yn datblygu ateb arloesol i'r problemau sy'n gysylltiedig ag ystadegau a dyblygu o ran casglu a dadansoddi data.

- Heriau: gordewdra a gweithgarwch corfforol; cyfraddau ysmygu; cludiant cymunedol; presenoldeb mewn ysgolion uwchradd a'r defnydd beunyddiol o'r iaith Gymraeg.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Mae'r Cynllun Lles yn diffinio'r blaenoriaethau ar gyfer y sector cyhoeddus ac yn gwella ein cynllun corfforaethol. Mae thema'r cynllun (annibyniaeth a gwydnwch) yn cael ei gefnogi gan asesiad o anghenion sy'n bodoli eisoes, ac mae bron yn sicr y bydd yr asesiad lles yn atgyfnerthu pwysigrwydd parhaus yr agenda hwn. Mae'r thema 'annibyniaeth a gwydnwch' yn berthnasol ac mae'r sector cyhoeddus yn debygol o gael eu cymell gan hyn am beth amser i ddod. Yn bwysicach fyth, mae 'annibyniaeth a gwydnwch' eisoes yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy a'r pum ffordd o weithio fel yr amlinellir yn Neddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

**6. Beth fydd y gost a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Mae'r Cynllun Lles wedi ei ddatblygu i lenwi'r bylchau ar draws y sector cyhoeddus yn defnyddio arian ac adnoddau presennol.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gynhaliwyd ar y penderfyniad?**

Cynhaliwyd asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb cyn i'r cynllun gael ei gyhoeddi ac ni chanfu unrhyw effaith negyddol.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgor Archwilio ac eraill?**

Derbyniodd y Pwyllgor Archwilio Partneriaethau adroddiad ar ddatblygu Cynllun Lles Sir Ddinbych ym mis Gorffennaf 2014, a chymeradwyodd y Cyngor y Cynllun Lles yn 2014.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Dim angen.

**10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn wneud i'w lleihau?**

Mae adnoddau partneriaid i ddatblygu prosiectau newydd sylweddol yn lleihau. Efallai y bydd angen cwtogi'r ddau brosiect sydd ar y gweill er mwyn eu cyflawni.

**11. Pŵer i wneud Penderfyniad**

Mae Adran 7 o Gyfansoddiad y Cyngor yn amlinellu pwerau'r Pwyllgor Archwilio mewn perthynas â monitro perfformiad a chyflawni amcanion y polisi.

**Atodiad**
Adroddiad Perfformiad 2014-16: Cefnogi Annibyniaeth a Gwydnwch: Cynllun Lles Sir Ddinbych

Swyddog Cyswllt: